Y CYNGOR – CYFARFOD ARBENNIG

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16.00 ar 26 EBRILL 2017, yn Ystafell F16, Y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd, ar y ffôn); Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor (ar y ffôn; o gofnod 100.7); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor; Dr Timothy Brain, Trysorydd (ar y ffôn); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (ar y ffôn); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Ms Anne Davies (ar y ffôn); Mrs Janet Davies (ar y ffôn); Mr Richard John; Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd Richard John (ar y ffôn); Mr Ian MacEachern (ar y ffôn); Dr Emyr Roberts (ar y ffôn); Dr Hazel Davey; Yr Athro Neil Glasser (tan gofnod 100.6); Ms Jackie Sayce; a Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid; Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC (ar y ffôn).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; Mr Keith Evans; Dr Jenny Mathers; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

98. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. *The Complete University Guide*

   Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol ar y newyddion bod Prifysgol Aberystwyth (PA) wedi dringo 19 lle yn nhabl cynghrair y *Complete University Guide* am 2018. Roedd y sefydliad bellach yn safle 68 yn y Deyrnas Gyfunol.

99. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

100. Y CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Weithrediaeth y Brifysgol, yn ymgorffori'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 2017-22 arfaethedig, a chofnodion cyfarfod is-grŵp y Cynllun Gweithredu a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2017 (COU1617-119).

NODWYD

1. Ar 07 Ebrill 2017, roedd y Cyngor wedi ystyried drafft o Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ac wedi gwahodd yr Is-Ganghellor i baratoi fersiwn ddiwygiedig, gan ddefnyddio'r sylwadau a'r arweiniad a gafwyd gan y corff llywodraethu.

2. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Cyngor hefyd wedi sefydlu is-grŵp i gadw golwg ar ddatblygiad pellach y CGC, a chytuno ar argymhelliad ar gyfer y corff llywodraethu, fel y gellid mabwysiadu'r CGC erbyn 30 Ebrill 2017. Aelodau'r is-grŵp oedd: Cadeirydd y Cyngor, y Trysorydd, Dr Emyr Roberts, yr Is-Ganghellor, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu).

3. Cafodd fersiwn ddiwygiedig o'r CGC ei ystyried gan yr is-grŵp yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2017. Roedd y fersiwn a ddosbarthwyd i'r corff llywodraethu yn awr yn adlewyrchu rhagor o ystyriaeth a sylwadau a dderbyniwyd ers hynny gan yr is-grŵp, a oedd yn argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r CGC. Cafodd dogfennau ategol eu rhoi ar safle Sharepoint ar gyfer y Cyngor.

4. Roedd y weledigaeth fwy hirdymor i PA - a gyflwynir yn y CGC - yn ceisio rhagoriaeth ymhob maes o ddarpariaeth y sefydliad. Cydnabu'r aelodau er bod y weledigaeth hon yn uchelgeisiol, bod modd ei chyrraedd gam ar y tro - a byddai'r cam cyntaf yn cael ei gyflwyno yn rhan o Gynllun Strategol nesaf y sefydliad.

5. Cafodd y CGC ei gynllunio i roi hyblygrwydd er mwyn gallu addasu i amgylchiadau cyfnewidiol yn ystod cyfnod ei weithredu. Caniatawyd hefyd ar gyfer elfennau annisgwyl, a lleihad yn nifer myfyrwyr er mwyn gweld pa arbedion effeithlonrwydd eraill y byddai eu hangen mewn sefyllfa o'r fath.

6. Trafododd yr aelodau sail y tybiadau a wnaed yn y CGC yng nghyswllt cynnydd yng nghostau byw yn y dyfodol, graddfeydd chwyddiant a ragwelir, ac incwm masnachu disgwyliedig. Cafodd rhagolygon ynglŷn â llif arian eu hystyried hefyd.

7. Siaradodd pob aelod yn ei dro ac fe gymeradwywyd y CGC gan bob un ohonynt. Croesawodd yr aelodau hefyd benderfyniad cadarn yr Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol i roi'r CGC ar waith ar unwaith ar ôl i'r corff llywodraethu ei gymeradwyo. Yn y cyswllt hwn, roedd dau lythyr - un i'w anfon at undebau llafur cydnabyddedig y Brifysgol, a'r llall at staff - wrthi'n cael eu drafftio. Byddai'r llythyrau hyn yn rhoi sylw i'r gofynion cyfreithiol y bydd angen i PA gydymffurfio â hwy er mwyn gwneud y Newidiadau i greu Arbedion Effeithlonrwydd yn y CGC.

8. Ymgynghorwyd â'r Cyngor Cyllido wrth ddatblygu'r CGC, ac fe gafodd y Brifysgol adborth cadarnhaol iawn ganddynt. Pan fydd y corff llywodraethu wedi cytuno ar y CGC, bydd y Cyngor Cyllido yn ystyried cais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad am 2018-19 yng ngoleuni eu hasesiad o'r CGC.

9. Wrth gyflwyno'u hymddiheuriadau am absenoldeb roedd Mr Keith Evans, Dr Jenny Mathers, a Ms Lauren Marks ill tri wedi anfon cadarnhad ysgrifenedig at Ysgrifennydd y Brifysgol yn dweud eu bod yn cefnogi argymhelliad yr is-grŵp ynghylch y CGC. Cyn gadael y cyfarfod cadarnhaodd Yr Athro Neil Glasser ei fod yn cefnogi'r argymhelliad.

PENDERFYNWYD

10. Yn unfrydol i gymeradwyo'r Cynllun Gwella Cynaliadwyedd, yn amodol ar (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor):

    1. mân newidiadau i'r testun i adlewyrchu pwyntiau a wnaed gan aelodau yn ystod y drafodaeth flaenorol;

    2. cywiro unrhyw gamgymeriadau teipio, a gwahoddwyd aelodau i gysylltu ag Ysgrifennydd y Brifysgol yn eu cylch erbyn 14.00 ar 27 Ebrill 2017; a

    3. diwygiadau i'r gofrestr risg a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen, i adlewyrchu sylwadau a wnaed gan aelodau ynglŷn â thybiadau cyllidol.

10. Y dylid gwneud newidiadau i'r dogfennau atodol, i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r CGC o ganlyniad i'r penderfyniad blaenorol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

11. Cefnogi'r Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol yn llwyr wrth roi'r CGC ar waith.

12. Y dylai'r is-grŵp a sefydlwyd i arolygu datblygiad y CGC gytuno ar destun y ddau lythyr sy'n cael eu drafftio (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol).

13. Y dylai'r is-grŵp uchod barhau i arolygu'r broses o roi'r CGC ar waith ac adrodd yn ôl i'r Cyngor yn rheolaidd (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).